Ansawdd a Safonau ym Maes Dysgu Teuluol

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cynnwys	Tudalen

1.	Cyflwyniad	1
2.	Prif ganfyddiadau	2
3.	Rhaglenni dysgu teuluol	4
4.	Dulliau cyflwyno	6
5.	Rheoli rhaglenni dysgu teuluol	6
6.	Arian ar gyfer rhaglenni	7
7.	Staffio ac adnoddau	7
8.	Arfarnu rhaglenni dysgu teuluol	9
9.	Canlyniadau	10
10.	Argymhellion	11
11.	Atodiad	13

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y cyfraniad a wneir gan raglenni dysgu teuluol at gyflawniadau plant yng nghyfnodau allweddol 1 i 3, ac at gyflawniadau oedolion[1] sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.

1.2 Mae dogfen dywys Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Y Wlad sy'n Dysgu' yn amlygu pwysigrwydd partneriaethau rhwng oedolion, teuluoedd, cynhalwyr, gwarchodwyr, meithrinfeydd ac ysgolion wrth helpu i roi 'dechreuad da i bob plentyn'. Mae hefyd yn rhag-weld y bydd ysgolion yn gweithredu fel adnodd cymunedol ac yn gallu helpu pobl o bob oedran i 'ddysgu sut i ddysgu'. Mae rhaglenni dysgu teuluol yn fodd i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.

1.3 Gellir dehongli'r term 'dysgu teuluol' mewn amryw ffyrdd. Ar gyfer yr adroddiad hwn, mae dysgu teuluol yn ymgorffori'r nodweddion canlynol:

- rhaglen ddysgu wirfoddol a arweinir gan diwtor a/neu athro;
- cyfranogiad plant, oedolion, teidiau a neiniau, cynhalwyr a phobl ifanc ac oedolion yn y gymuned; sydd â diddordeb
- cyfranogwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd fel arfer ar thema gyffredin ar gyfer rhan o raglen fwriadedig neu raglen gyfan; a
- chyfranogiad trydydd parti, er enghraifft, awdurdodau addysg lleol (AALlau), ysgolion, asiantaethau cenedlaethol neu asiantaethau lleol eraill.

1.4 Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2002 a Mawrth 2003. Ymwelwyd ag ysgolion, colegau, awdurdodau addysg lleol (AALlau) a chanolfannau dysgu cymunedol er mwyn arsylwi gweithgareddau dysgu teuluol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda disgyblion, dysgwyr a oedd yn oedolion, gweithwyr cynnal a rheolwyr. Lle roedd yn briodol, archwiliwyd dogfennau fel cynlluniau gweithredol a strategol hefyd. Lle arsylwyd dosbarthiadau, edrychwyd ar waith disgyblion a myfyrwyr. Roedd canfyddiadau'r adroddiad hefyd yn tynnu ar dystiolaeth o adroddiadau arolygiadau addysg bellach (AB). Ystyriwyd hefyd ganfyddiadau arolygon dysgu teuluol a gyflwynwyd gan asiantaethau eraill.

1.5 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddarpariaeth dysgu teuluol sy'n cael ei hariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar adegau mae'r arian hwn yn cael ei gyfuno ag arian o ffynonellau eraill, fel arian Ewropeaidd, neu caiff ei reoli gan gyrff cyhoeddus eraill fel yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. AALlau sy'n gyfrifol am reoli a/neu gydlynu mwyafrif y rhaglenni dysgu teuluol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. Mae'r atodiad yn rhoi manylion pellach am y rhaglenni hyn. Mae AALlau yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol a darparwyr addysg bellach i gyflwyno dysgu teuluol. Caiff gweithgareddau dysgu teuluol eu cyflwyno hefyd gan sefydliadau yn y sector gwirfoddol, ond nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

[1] Defnyddir y term 'oedolion' yn yr adroddiad hwn er mwyn hwyluso'r darllen ond gall gynnwys oedolion, teidiau a neiniau, cynhalwyr, oedolion ifanc ac oedolion eraill sydd â diddordeb.

2. Prif ganfyddiadau

2.1 Gelwir amrywiaeth eang o weithgareddau yn ddysgu teuluol. Y rhaglen dysgu teuluol fwyaf cyffredin yw llythrennedd i deuluoedd a rhifedd i deuluoedd. Caiff hon ei chyflwyno yn y cyfnod addysg cynradd. Mae rhaglenni dysgu teuluol eraill yn helpu oedolion i gefnogi plant yn eu dysgu, fel rhaglenni i oedolion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Ymysg grŵp llawer ehangach o raglenni dysgu teuluol, sy'n cynnwys gwasanaethau oedolion neu addysg gymunedol yn aml, mae gweithgareddau rhwng cenedlaethau a gweithgareddau awyr agored a chreadigol mewn amgylchedd nad yw'n rhan o'r ysgol. Gellir anelu rhaglenni dysgu teuluol at gyfran helaeth o'r boblogaeth, gan gynnwys oedolion nad ydynt mewn cyflogaeth amser llawn, oedolion a fyddai'n elwa drwy feistroli medrau cyfathrebu gwell, oedolion plant hŷn yn ogystal â phlant iau, mamau sy'n dioddef gan iselder ysbryd ar ôl rhoi genedigaeth, cynhalwyr oedran ysgol, ac oedolion a disgyblion ag anableddau. Menywod gan amlaf yw'r oedolion sy'n cymryd rhan, ac mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch dysgu teuluol yn digwydd yn yr ysgol.

2.2 Mae manteision dysgu teuluol yn lluosog eu nifer ac yn amrywiol eu natur. Yn anad dim, mae pob un sy'n cymryd rhan mewn dysgu teuluol yn crybwyll bod manteision nid yn unig i ddysgwyr unigol, ond hefyd i ysgolion a'r gymuned ehangach. Ar y cyfan, mae rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu yn bodloni eu hamcanion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae pob disgybl yn gwella'i fedrau iaith a rhif, a phob oedolyn sy'n mynychu'r rhaglen wedi ennill cymwysterau cyfan neu rannol mewn llythrennedd neu rifedd. Mae manteision hefyd o ran ymddygiad disgyblion neu eu hagwedd gyffredinol at ddysgu. Mae nifer o oedolion wedi mynd ymlaen i astudio ymhellach o ganlyniad i gymryd rhan mewn dysgu teuluol, ac mae bron pob un wedi magu hyder ac mewn sefyllfa well i gefnogi dysgu eu plant. Mae rhai o ganlyniadau rhaglenni dysgu teuluol yn anodd eu mesur. Er enghraifft, y gallu i wneud ffrindiau newydd neu oresgyn pryder wrth siarad mewn grŵp.

2.3 Caiff rhaglenni dysgu teuluol eu cyflwyno gan nifer o ddarparwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol. Mae trefniadau partneriaeth yn gwneud cyfraniad hanfodol at gyflwyno rhaglenni dysgu teuluol yn llwyddiannus, ac ar y cyfan mae'r rhain yn gweithio'n dda. AALlau yw'r prif ddarparwyr ac mae mwyafrif yr AALlau yn rheoli amrediad eang o raglenni dysgu teuluol. Y man mwyaf cyffredin i gynnal rhaglenni dysgu teuluol yw ysgolion, ond yn gynyddol, mewn rhai AALlau, mae prosiectau dysgu teuluol yn cael eu cynnal yn y gymuned. Mewn rhai AALlau, mae'r cwricwlwm dysgu teuluol yn eithaf cul, hynny yw, mae mwyafrif y gweithgareddau dysgu'n gysylltiedig â gweithgareddau ysgol yn y cyfnod cynradd ac yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd. Mae hyn, yn anochel, yn cynnwys rhai grwpiau ac unigolion a allai elwa o broses a chanlyniadau dysgu teuluol, ond nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau a nodwyd o'r meini prawf ariannu neu feini prawf eraill.

2.4 Mae'r modelau cyflwyno dysgu teuluol yn amrywio'n helaeth. Yn y naill begwn, maent yn eithaf strwythuredig a dwys, fel rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS). Yn y pegwn arall mae rhaglenni sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno gan wasanaeth addysg i oedolion neu wasanaeth addysg gymunedol yr AALl. Mae llawer ohonynt yn weithgareddau ymarferol, a bydd oedolion, plant a phobl ifanc yn mynychu gyda'i gilydd am un sesiwn yr wythnos. Mae'r sesiynau'n anffurfiol, a chreadigrwydd a rhannu profiadau dysgu yw'r prif ffocws. Fel rheol nid yw canlyniadau dysgu ar gyfer y math hwn o ddysgu teuluol yn bendant.

2.5 Mae gwaith cynllunio a rheoli rhaglenni dysgu teuluol yn amrywio rhwng AALlau, ac yn anochel mae trefniadau ariannu'n dylanwadu arno. Mae'n rhaid i gynllun strategol addysg pob AALl erbyn hyn gynnwys cyfeiriadau at raglenni llythrennedd a rhifedd teulu a sut mae'r rhain yn cysylltu â'u strategaethau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid oes digon o ysgolion yn cynnwys rhaglenni dysgu teuluol yn eu gwaith o gynllunio datblygiad. Hyd yn oed pan fydd ysgol yn cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu teuluol, fel datblygu medrau TGCh plant ac oedolion, nid yw'r gwaith hwn yn cael ei gynnwys mewn ffordd drefnus yn y cynllun datblygu ysgol.

2.6 Caiff gweithgareddau dysgu teuluol eu hariannu o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys cronfeydd ysgolion eu hunain, Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH), yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS) ac arian o Ewrop. O ganlyniad i'r gwahanol ffynonellau arian ar gyfer dysgu teuluol, mae prosesau cynllunio a chynnig gwahanol yn aml ynghyd â gwahanol feini prawf ar gyfer eu defnyddio. Yn aml mae hyn yn gwneud y gwaith o gynllunio trefniadau o'r fath yn ddiangen o gymhleth. Mae arian ar gyfer llawer o'r rhaglenni dysgu teuluol yn arian tymor byr, ac yn aml mae ansicrwydd ynghylch cael arian yn y dyfodol. Mae hyn yn llesteirio'r gwaith o gynllunio rhaglenni dysgu teuluol yn strategol. Yn ogystal, mae'r cyfnod cyfyngedig i hysbysu am lwyddiant ariannu'n cael effaith ar rai rhaglenni.

2.7 Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd a'r adnoddau ar gyfer rhaglenni dysgu teuluol mewn ysgolion yn amrywio. Lle mae gan ysgolion ystafelloedd penodol ar gyfer oedolion, mae'r rhain fel arfer yn gyfforddus ac yn groesawgar. O bryd i'w gilydd, cynhelir cyrsiau mewn ystafelloedd o ansawdd gwael a all gael eu defnyddio i storio dodrefn, er enghraifft. Nid yw hyn yn creu awyrgylch sy'n gydnaws â dysgu. Mae ansawdd y deunyddiau addysgu a dysgu yn foddhaol ac yn aml yn dda. Mae tiwtoriaid yn gweithio'n galed i gynhyrchu eu deunyddiau eu hunain yn ogystal â defnyddio deunyddiau a ddaw o ffynonellau masnachol. Lle mae rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu wedi'u sefydlu'n dda, mae staff yn ymdrechu i gyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau ac adnoddau. Fodd bynnag, mewn llawer achos, ychydig o gyfle sydd i staff sy'n cyflwyno dysgu teuluol rannu profiadau ac elwa o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mewn rhaglenni lle mae mynediad i dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o fudd, mae'r defnydd a wneir ohoni'n amrywio. Mewn rhai rhaglenni caiff ei hintegreiddio'n llawn a bydd oedolion a'u plant yn elwa o'r gallu i gydweithio gan ddefnyddio TGCh.

2.8 Mae rhan fwyaf y rhaglenni dysgu teuluol yn cynnwys arfarniad o lwyddiant eu gweithgareddau. Fodd bynnag, mae'r modd y gwneir hyn yn amrywio ar draws yr holl raglenni. Ychydig iawn o gynnydd a wnaed gan ran fwyaf yr AALlau o ran eu gallu i fesur yr effaith ar safonau llythrennedd a rhifedd teulu ar draws yr awdurdod. Hefyd, ychydig o ysgolion sy'n monitro'n ffurfiol ganlyniadau llythrennedd a rhifedd teulu ar ddisgyblion. Ychydig o waith olrhain, os o gwbl, sydd o ddisgyblion a fu'n rhan o'r rhaglen mewn blynyddoedd blaenorol, er enghraifft, pan symudant o gyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2. Ar hyn o bryd, prin iawn yw'r sôn am effeithiau rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu ar gynyddu lefelau presenoldeb disgyblion, llai o driwantiaeth, gwell cymhelliant ac agweddau at ddysgu wrth arfarnu effeithiau'r rhaglen.

3. Rhaglenni dysgu teuluol

3.1 Gellir anelu rhaglenni dysgu teuluol at amrywiaeth helaeth o'r boblogaeth, gan gynnwys oedolion nad ydynt mewn cyflogaeth amser llawn, oedolion a fyddai'n elwa o well medrau cyfathrebu, oedolion plant hŷn yn ogystal â phlant iau, mamau sy'n dioddef gan iselder ysbryd ar ôl rhoi genedigaeth, cynhalwyr oedran ysgol, ac oedolion a disgyblion ag anableddau. Er bod y rhan fwyaf o raglenni dysgu teuluol yn cynnwys prosiectau mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd, mewn rhai AALlau maent yn ymestyn ar draws y sbectrwm cymdeithasol i gynnwys ardaloedd mwy ffyniannus.

3.2 Caiff rhaglenni dysgu teuluol eu cyflwyno gan nifer o ddarparwyr, gan gynnwys darparwyr yn y sector gwirfoddol. AALlau yw'r prif ddarparwyr ac mae mwyafrif y rheiny'n rheoli amrediad eang o raglenni dysgu teuluol. Y man mwyaf cyffredin i gynnal rhaglenni dysgu teuluol yw ysgolion, ond yn gynyddol, mewn rhai AALlau mae prosiectau dysgu teuluol yn cael eu cynnal yn y gymuned.

- Yn rhan fwyaf yr AALlau, mae rhaglenni dysgu teuluol yn digwydd mewn nifer o'u hysgolion.
- Mewn nifer fach o AALlau, bydd pob ysgol gynradd yn cymryd rhan mewn llythrennedd a rhifedd teulu ar raglen dreigl.
- Mewn nifer fach o AALlau, mae gan ysgolion wahanol raglenni dysgu teuluol sy'n rhedeg gyda'i gilydd.
- Yn rhan fwyaf yr AALlau ychydig iawn o raglenni dysgu teuluol sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion uwchradd.

3.3 Gelwir amrywiaeth eang o weithgareddau yn ddysgu teuluol. Y rhaglen dysgu teuluol fwyaf cyffredin yw llythrennedd i deuluoedd a rhifedd i deuluoedd. Caiff hon ei chyflwyno yn ystod y cyfnod addysg cynradd. Mae rhaglenni dysgu teuluol eraill yn helpu oedolion i gefnogi plant yn eu dysgu, fel rhaglenni i oedolion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Ymysg grŵp llawer ehangach o raglenni dysgu teuluol, sy'n cynnwys gwasanaethau oedolion neu addysg gymunedol yn aml, mae gweithgareddau rhwng cenedlaethau, a gweithgareddau awyr agored a chreadigol mewn amgylchedd nad yw'n rhan o'r ysgol.

3.4 Menywod yw mwyafrif yr oedolion hynny sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu teuluol mewn ysgolion. Ychydig iawn o oedolion sy'n ddynion, yn gynhalwyr neu'n oedolion sydd ymhob un bron o'r rhaglenni hyn. Bydd dynion yn cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu teuluol eraill, ac mewn rhai achosion mae rhaglenni penodol i annog dynion i gymryd rhan, fel penwythnosau 'tadau a llanciau'. Yn achos plant y gofelir amdanynt, yng gofal yr awdurdod lleol, gall fod yn anodd i gynhalwyr gymryd rhan lawn mewn rhaglenni.

3.5 Mae i raglenni llythrennedd a rhifedd teulu yr amcanion pwysig canlynol:

- datblygu medrau iaith a rhif plant;
- gwella hyder a hunan-barch plant;
- adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng y cartref a'r ysgol;
- cynnwys mwy o oedolion wrth addysgu plant yn eu gofal;
- galluogi oedolion i gefnogi plant yn well; a
- gwella medrusrwydd oedolion mewn amryw fedrau, yn arbennig llythrennedd, rhifedd a sut i fod yn rhieni.

3.6 Mae i raglenni dysgu teuluol eraill, fel penwythnosau dysgu crochenwaith i deuluoedd neu brosiectau TG cymunedol i ddatblygu gwefan, nifer o'r amcanion uchod a'u nod hefyd yw:

- atgyfnerthu teuluoedd a chymunedau;
- galluogi amrywiaeth eang o bobl i weithio a dysgu gyda'i gilydd a gwerthfawrogi profiad a medrau ei gilydd; ac
- annog oedolion i symud ymlaen i gyfleoedd dysgu pellach.

3.7 Er nad cymwysterau ffurfiol yw'r canlyniad pwysicaf o reidrwydd yn y rhaglenni hyn, mae darparwyr yn dod yn fwyfwy ymwybodol o fanteision achredu i ysgogi dysgwyr yn ogystal â mesur eu cyflawniadau.

3.8 Mewn rhai AALlau, mae'r cwricwlwm dysgu teuluol yn eithaf cul gan fod mwyafrif y gweithgareddau dysgu yn gysylltiedig â gweithgareddau yn yr ysgol yn y cyfnod cynradd ac yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd. Mae hyn, yn anochel, yn eithrio rhai grwpiau ac unigolion a allai elwa o broses a chanlyniadau dysgu teuluol, ond nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau a nodir gan y meini prawf ariannol neu'r meini prawf eraill. Er enghraifft, ychydig iawn o ddysgu teuluol sydd ym maes addysg uwchradd. Mae'n amlwg er bod y rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu wedi bod o fudd i oedolion a phlant sydd â medrau sylfaenol gwael, eu bod yn parhau i'w chael yn anos i fanteisio ar gyfleoedd dysgu eraill. Ar y cyfan, mae llai o gyfleoedd ar gyfer dysgu teuluol llai academaidd, er enghraifft, yn cynnwys celf a chrefft neu weithgareddau ymarferol eraill.

4. Dulliau cyflwyno

4.1 Mae'r modelau cyflwyno dysgu teuluol yn amrywio'n helaeth. Yn y naill begwn, maent yn eithaf strwythuredig a dwys, fel rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS). Cyrsiau ar wahân yw'r rhain sy'n cael eu cyflwyno dros gyfnod penodol o wythnosau ac oriau. Caiff plant ac oedolion sesiynau wedi'u hamserlennu ar wahân gydag arbenigwyr addysg gynradd ac oedolion, ac yna dônt ynghyd ar gyfer trydedd sesiwn ar y cyd. Mae strwythur ffurfiol cyffelyb i gynllun 'Cadw i fyny â'r plant' a chynlluniau sy'n cefnogi oedolion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol (SIY) iddynt, ond mae llai o oriau pob wythnos iddynt. Yn yr un modd, mae rhaglen SHARE yn cynnwys sesiynau wythnosol i ddisgyblion ac oedolion gyfarfod yn eu grwpiau ar wahân yn ogystal â thasgau iddynt eu cyflawni gartref. Yn y pegwn arall mae rhaglenni sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno gan wasanaeth addysg i oedolion neu wasanaeth addysg gymunedol yr AALl. Mae nifer ohonynt yn weithgareddau ymarferol a bydd oedolion, plant a phobl ifanc yn mynychu gyda'i gilydd am un sesiwn yr wythnos. Mae'r sesiynau'n anffurfiol, a chreadigrwydd a rhannu profiadau dysgu yw'r prif ffocws. Fel rheol nid yw canlyniadau dysgu ar gyfer y math hwn o ddysgu teuluol yn bendant.

5. Rheoli rhaglenni dysgu teuluol

5.1 Mae'r gwaith o gynllunio a rheoli rhaglenni dysgu teuluol yn amrywio rhwng AALlau ac mae'n anochel bod trefniadau ariannu yn cael dylanwad. Mae mwyafrif yr AALlau, drwy ymateb i'r maes gwaith hwn sy'n ymestyn, wedi penodi swyddog sy'n gyfrifol am gydlynu rhaglenni dysgu teuluol. Mewn rhai achosion caiff hyn ei gyfuno â gwaith arall. Mae pob cynllun strategol addysg AALlau nawr yn cynnwys cyfeiriadau at raglenni llythrennedd a rhifedd teulu a sut mae'r rhain yn cysylltu â'u strategaethau llythrennedd a rhifedd. Mae grŵp llywio neu ymgynghori ar y cyd gan y rhan fwyaf o AALlau, ac mae hwn yn monitro gweithrediad eu rhaglenni dysgu teuluol. Maent yn gweithio'n dda yn gyffredinol. Mae aelodau'n gallu cynnwys cynrychiolaeth o'r tîm ymgynghorol a/neu'r tîm gwella ysgolion, y gwasanaeth seicoleg ysgolion a phartneriaid yn y sector ôl-16.

5.2 Mewn achosion lle caiff dysgu teuluol ei gyflwyno'n rhannol mewn ysgol, mae'r gwaith o gynllunio'r cynnwys yn aml yn anffurfiol, ac ni chaiff ei integreiddio'n ddigonol bob amser yng ngwaith yr ysgol er mwyn cael yr effaith fwyaf ar safonau cyflawni disgyblion. Mewn rhai ysgolion, mae rhaglenni llythrennedd a rhifedd teuluol yn annibynnol ar y gwaith a wneir gan blant yn eu gwersi prif ffrwd. Mae hyn yn cyfyngu effeithiolrwydd y rhaglen ddysgu. Yn yr arfer gorau, mae'r gwaith a wna plant yn y rhaglenni dysgu teuluol yn ategu eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth ac yn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn.

5.3 Lle mae AALlau a darparwyr AB yn cyflwyno llythrennedd a rhifedd teulu ar cyd, mae partneriaethau'n gweithio'n dda ac yn aml yn arwain at ddatblygiadau eraill sydd o fudd i oedolion a phlant, er enghraifft, cyrsiau dilyn i fyny mewn TGCh sylfaenol i oedolion, cyrsiau 'Helpwch eich Plentyn' a gyflwynir gan bartneriaid addysg bellach mewn ysgolion ac ymweliadau â'r coleg lleol er mwyn annog dilyniant. Yn aml, mae partneriaethau ag asiantaethau eraill, er enghraifft, cysylltiadau â Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Swyddog Lles Addysg wedi'u datblygu i raddau llai.

5.4 Nid oes digon o ysgolion yn cynnwys rhaglenni dysgu teuluol yn eu gwaith cynllunio datblygiad. Hyd yn oed pan fydd ysgol yn cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu teuluol, fel datblygu medrau TGCh plant ac oedolion, nid yw'r gwaith hwn yn cael ei gynnwys yn systemataidd yn y cynllun datblygu ysgol.

6. Arian ar gyfer rhaglenni

6.1 Caiff gweithgareddau dysgu teuluol eu hariannu o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys cronfeydd ysgolion eu hunain, Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH), yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS) ac arian o Ewrop. O ganlyniad i'r gwahanol ffynonellau arian ar gyfer dysgu teuluol, yn aml mae prosesau cynllunio a chynnig gwahanol ynghyd â gwahanol feini prawf ar gyfer eu defnyddio. Mae hyn yn aml yn gwneud y gwaith o gynllunio trefniadau o'r fath yn ddiangen o gymhleth.

6.2 Caiff llythrennedd a rhifedd teulu ei ariannu gan yr ASS a GCAH. Bydd ysgolion yn cyfrannu mewn da, fel darparu'r adeiladau a'r ystafelloedd. Cyflwynir y rhaglen fel arfer mewn partneriaeth â darparwr AB. Y darparwr AB sy'n cyflogi'r tiwtoriaid oedolion ac yn rheoli'r dasg o achredu'r dysgu teuluol. Mae rhaglenni dysgu teuluol sy'n cynnwys TGCh yn aml yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â darparwyr AB, sy'n gallu defnyddio arian Addysgu a Dysgu Cymru (ELWa) ar gyfer oedolion sy'n dysgu. Er mai yn eu cyfnod datblygu cynnar y mae rhai partneriaethau, mae pob un ohonynt yn gweithredu'n effeithiol. Mae partneriaethau gwerthfawr wedi datblygu rhwng darparwyr AB ac ysgolion.

6.3 Mae arian ar gyfer nifer o'r rhaglenni dysgu teuluol yn arian ar gyfer y tymor byr, ac yn aml mae ansicrwydd ynghylch cael arian yn y dyfodol. Mae hyn yn llesteirio'r gwaith o gynllunio rhaglenni dysgu teuluol yn strategol. Yn ogystal, mae'r cyfnod cyfyngedig i hysbysu am lwyddiant ariannu'n cael effaith ar rai rhaglenni.

7. Staffio ac adnoddau

7.1 Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd a'r adnoddau ar gyfer rhaglenni dysgu teuluol mewn ysgolion yn amrywio. Lle mae gan ysgolion ystafelloedd penodol ar gyfer oedolion, mae'r rhain fel arfer yn gyfforddus ac yn groesawgar. Mae enghreifftiau da o achosion lle mae ysgolion wedi darparu adeiladau ac ystafelloedd i oedolion sy'n dysgu a disgyblion eu defnyddio ar wahanol adegau'r dydd, ac mae partner o'r sector ôl-16 wedi darparu'r cyfrifiaduron. Mewn ychydig o achosion, mae'n rhaid i oedolion ddefnyddio dodrefn sydd wedi'u cynllunio ar gyfer plant bach. Bydd rhywfaint o ddysgu teuluol yn cael ei gynnal mewn adeiladau ac ystafelloedd a logir neu a rennir, ac mae hyn yn aml yn cyfyngu ar ddefnyddio arddangosiadau ar y wal ac nid oes llawer o le i storio. O bryd i'w gilydd, lleolir cyrsiau mewn ystafelloedd o ansawdd gwael sydd weithiau'n cael eu defnyddio i storio dodrefn, er enghraifft. Nid yw hyn yn creu awyrgylch sy'n gydnaws â dysgu.

7.2 Mewn rhai rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu, mae galw mawr ar gyfleusterau meithrinfa a ddarperir gan yr ysgol.

7.3 Mae ansawdd y deunyddiau addysgu a dysgu yn foddhaol ac yn aml yn dda. Bydd tiwtoriaid yn gweithio'n galed i gynhyrchu eu deunyddiau eu hunain yn ogystal â defnyddio deunyddiau o ffynonellau masnachol. Lle mae rhaglenni llythrennedd a rhifedd wedi'u sefydlu'n dda, mae staff yn ymdrechu i gyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau ac adnoddau. Mae amser ar gyfer cynllunio ar ddechrau cyrsiau fel arfer yn cael ei gyllido a'i amserlennu'n dda. Fodd bynnag, mae llai o gyfle i staff gyfarfod yn ystod cwrs i drafod ac adolygu pa mor dda mae pethau'n datblygu. Mewn rhai achosion, prin iawn yw'r cysylltiad a gaiff y tiwtoriaid addysg gynradd ac addysg i oedolion sy'n cyflwyno'r rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu â staff eraill yn yr ysgol. Nid oes digon o gyfleoedd i'r tiwtoriaid dysgu teuluol ymuno â staff eraill yn yr ysgol i gael hyfforddiant mewn datblygiad proffesiynol. Bydd rhai AALlau yn trefnu diwrnodau datblygiad staff ar gyfer staff mewn ysgolion sy'n cymryd rhan er mwyn iddynt gael rhannu arfer dda gyda'r rheiny sydd ar fin cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu teuluol. Gall hyn gynnwys rhannu adnoddau er mwyn osgoi gwaith diangen a gwella cysondeb. Mewn rhai achosion, gwahoddir llywodraethwyr ysgol a phartneriaid yn y sector ôl-16, ond nid yw hyn yn gyson ar draws pob AALl.

7.4 Lle mae gweithgareddau dysgu teuluol wedi'u cynlunio'n estyniad o waith ysgol ac yn cynnwys athrawon amser llawn yn yr ysgol, er enghraifft, cefnogaeth SIA, SHARE a chlybiau gwaith cartref, yna mae'r lefelau staffio fel arfer yn dda. Fodd bynnag, mae recriwtio a chadw staff i gyflwyno rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu yn aml yn anos. Mewn rhai sefyllfaoedd, nid oes digon o athrawon sydd wedi'u cymhwyso ar gyfer yr ysgol gynradd a hefyd sydd wedi'u cymhwyso fel tiwtoriaid addysg i oedolion (a sgiliau sylfaenol) neu sy'n gallu gweithio'n llwyddiannus gydag oedolion a phlant. Mae darparwyr wedi goresgyn hyn, i ryw raddau, drwy gyflogi dau diwtor, y naill i gyflwyno'r sesiwn i blant a'r llall i gyflwyno'r sesiwn i oedolion. Maent yn addysgu gyda'i gilydd ar gyfer y trydydd sesiwn ar y cyd. Yn y sefyllfa hon, yn aml nid oes digon o amser i diwtoriaid rannu eu gwybodaeth arbenigol o'r cwricwlwm nac anghenion dysgu disgyblion ac oedolion sy'n cael eu haddysgu gan eu cydweithiwr.

7.5 Mewn rhaglenni lle mae mynediad i TG o fudd, mae'r defnydd a wneir ohoni'n amrywio. Mewn rhai rhaglenni caiff ei hintegreiddio'n llawn ac mae oedolion a'u plant yn elwa o'r gallu i gydweithio gan ddefnyddio TG. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i deuluoedd nad oes ganddynt gyfrifiadur gartref. I rai oedolion, hwn yw eu cyfle cyntaf yn aml i ddysgu TG drostynt eu hunain. Yn yr arfer gorau, gall oedolion ddatblygu eu hyder ac adeiladu ar fedrau presennol yn ogystal â dysgu sut mae eu plant yn defnyddio cyfrifiaduron yn yr ysgol a sut i'w cefnogi. Mewn un enghraifft, roedd awr gyntaf y rhaglen, i oedolion yn unig, yn cyfeirio at eu hanghenion unigol. Roedd oedolion yn meddu ar amrediad o fedrau TG a phrofiad, a chanolbwyntiai rhai ar wella medrau defnyddio llygoden neu agweddau mwy cymhleth ar broses geiriau. Ceisiai'r tiwtor gynnig gweithgareddau o ddiddordeb a gwerth i oedolion, fel galluogi un rhiant i wneud cardiau busnes. Cânt hefyd weld ychydig o'r feddalwedd a defnyddir gan eu plant yn yr ysgol. Ar gyfer yr ail awr, mae oedolion a'u plant yn gweithio gyda'i gilydd ar amryw weithgareddau, sy'n defnyddio'r medrau a ddysgant, fel gwneud cardiau pen-blwydd.

8. Arfarnu rhaglenni dysgu teuluol

8.1 Mae rhan fwyaf y raglenni dysgu teuluol yn cynnwys arfarniad o lwyddiant eu gweithgareddau. Fodd bynnag, mae'r modd y gwneir hyn yn amrywio ar draws pob rhaglen. Mae'r gwaith o arfarnu rhaglenni llythrennedd/rhifedd teulu yn cwmpasu recriwtio, cadw, lefelau mynychu, gwella lefelau hyder a chynnydd mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer oedolion a disgyblion. Mae profion disgyblion yn cynnwys prawf llinell sylfaen ar ddechrau'r rhaglen ac ail brawf ar y diwedd. Rhennir canlyniadau sgorau disgyblion ag oedolion yn ogystal â'r ysgol. Ar gyfer oedolion mae asesiad cychwynnol ar ddechrau'r rhaglen a gwaith parhaus o asesu a llunio portffolios i'w hachredu.

8.2 Mae'r cyfraddau cyrhaeddiad cyffredinol ar gyfer oedolion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu yn dda. Mae arfarniad cynnar yn awgrymu bod tua'r hanner yn mynd ymlaen i brosiectau eraill, yn cael gwaith neu'n dilyn cyrsiau mewn colegau addysg bellach. Mae cyfraddau achredu ar gyfer oedolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen SHARE hefyd yn dda.

8.3 Ychydig iawn o gynnydd a wnaed gan y rhan fwyaf o AALlau o ran eu gallu i fesur yr effaith ar safonau llythrennedd a rhifedd teulu ar draws yr awdurdod; ac ychydig o ysgolion sy'n monitro canlyniadau llythrennedd a rhifedd teulu i ddisgyblion yn ffurfiol. Ychydig o waith olrhain sydd, os o gwbl, o ddisgyblion sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen mewn blynyddoedd blaenorol, er enghraifft, pan symudant o gyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2. Ar hyn o bryd, prin iawn yw'r sôn am effeithiau rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu ar gynyddu lefelau presenoldeb disgyblion, llai o driwantiaeth, gwell cymhelliant ac agweddau wrth arfarnu effeithiau'r rhaglen.

8.4 Mae'r gwaith o arfarnu amrediad ehangach o raglenni dysgu teuluol eraill yn aml yn anffurfiol gydag ychydig o fecanweithiau penodol i fonitro ac arfarnu effaith a manteision y rhaglen i'r rheiny sy'n cymryd rhan. Mae anawsterau wrth olrhain y rheiny sy'n cymryd rhan mewn dysgu teuluol, heblaw prosiectau llythrennedd a rhifedd teulu, ac mae hyn yn cyfyngu ar arfarnu trylwyr.

9. Canlyniadau

9.1 Mae manteision dysgu teuluol yn niferus ac yn amrywiol eu natur. Yn ddieithriad, mae pob un sy'n cymryd rhan mewn dysgu teuluol yn crybwyll bod manteision nid yn unig i ddysgwyr unigol, ond hefyd i ysgolion a'r gymuned ehangach.

9.2 Ar y cyfan, mae rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu yn bodloni eu hamcanion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae pob disgybl yn gwella'i fedrau iaith a rhif, ac mae pob oedolyn sy'n mynychu'r rhaglen wedi ennill cymwysterau cyfan neu rannol mewn llythrennedd neu rifedd. Mae manteision hefyd o ran ymddygiad disgyblion neu eu hagwedd gyffredinol at ddysgu. Mae nifer o oedolion wedi mynd ymlaen i astudio ymhellach o ganlyniad i gymryd rhan mewn dysgu teuluol, ac mae bron pob un wedi magu hyder ac mewn sefyllfa well i gefnogi dysgu eu plant.

9.3 Mae rhai o ganlyniadau rhaglenni dysgu teuluol yn anodd eu mesur. Er enghraifft, gallu gwneud ffrindiau newydd, goresgyn pryder am siarad mewn grŵp, rhiant yn treulio amser di-dor gyda phlentyn, diddordeb cynyddol mewn llyfrau a'r storïau sydd ynddynt, ac ymestyn gorwelion yn gyffredinol, gan gynnwys gwerthfawrogi'r hyn sy'n gwneud pobl yn wahanol yn ogystal â'r pethau sy'n gyffredin rhyngddynt.

9.4 Ymhlith y canlyniadau i ddisgyblion mae:

- gwelliannau mewn agweddau ar lythrennedd a rhifedd;
- agweddau cadarnhaol at ddysgu yn yr ysgol, gan gynnwys y gallu i gymhwyso eu medrau i dasgau yn fwy cadarnhaol a gallu canolbwyntio am gyfnodau hwy; a
- mwy o hyder a hunan-barch, fel dyfalbarhau gyda thasg anodd a gallu gweithio a chwarae gydag eraill.

9.5 Ymhlith y canlyniadau i oedolion mae:

- gwell medrau mewn llythrennedd, rhifedd a TG;
- cymwysterau mewn llythrennedd, rhifedd a TG, ac mewn meysydd eraill;
- gwell dealltwriaeth pam mae plant yn dysgu;
- mwy o hyder yn eu gallu eu hunain i gefnogi dysgu eu plant;
- hyder personol a hunan-barch;
- disgwyliadau uwch am gyflawniadau eu plant yn y dyfodol; a
- chymhelliant a hyder i symud ymlaen i gyrsiau eraill, er enghraifft, nyrsio mewn meithrinfa, cynorthwyo yn yr ystafell ddosbarth, addysgu a chyrsiau TG uwch.

9.6 Ymhlith y canlyniadau i ysgolion ac athrawon mae:

- adeiladu pontydd rhwng y cartref a'r ysgol ac atgyfnerthu'r bartneriaeth â rhieni. Er enghraifft, mae rhai rhieni wedi mynd ymlaen i gymryd rôl weithgar mewn cymdeithasau rhieni, ac athrawon ac wedi dod yn llywodraethwyr;
- gallu rhoi cefnogaeth ychwanegol i oedolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig;
- gwella dealltwriaeth o anghenion oedolion. Mae rhieni wedi teimlo'n fwy hyderus am gyfrannu at drafodaethau, fel siarad ag arolygwyr sy'n bresennol yn eu hysgol, neu'r oedolion hynny y mae Saesneg yn ail iaith iddynt yn gallu sgwrsio gydag athrawon mewn nosweithiau i rieni;
- mwy o ymwybyddiaeth o anghenion medrau sylfaenol oedolion; a
- chysylltiadau cryfach rhwng ysgolion ac AB o fewn awdurdod.

10. Argymhellion

Er mwyn cynnal ac adeiladu ar raglenni dysgu teuluol, mae angen i bawb sy'n ymwneud â'r maes:

- sicrhau bod gwrywod mewn teuluoedd yn cymryd mwy o ran, a datblygu amrediad mwy hyblyg hyd yn oed i gefnogi oedolion a disgyblion hŷn;
- gwella mecanweithiau ar gyfer cynllunio rhaglenni dysgu teuluol ar y cyd er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng yr hyn a wna disgyblion mewn rhaglenni dysgu teuluol a'r gwaith a wnânt yn yr ysgol;

- olrhain datblygiadau disgyblion a'u rhieni am gyfnod er mwyn gallu mesur y canlyniadau a chefnogi teuluoedd yn effeithiol ar adegau hanfodol;

- gwella'r gwaith o gynllunio rhaglenni dysgu teuluol yn strategol mewn ysgolion;

- symleiddio trefniadau ar gyfer ariannu rhaglenni dysgu teuluol yn y tymor hir er mwyn sicrhau parhad a sicrhau rhaglenni at y dyfodol;

- sicrhau bod staff sy'n cyflwyno rhaglenni dysgu teuluol yn gallu rhannu profiadau a chael budd o ddatblygiad proffesiynol parhaus; a

- datblygu dulliau mwy annibynnol o fonitro ac arfarnu, gan gynnwys defnyddio data meintiol i weld beth yw effaith annibynnol rhaglenni dysgu teuluol ar safonau cyflawniad disgyblion – ac i gynnal manteision a'u lledaenu'n helaethach.

Atodiad

Mathau o raglenni dysgu teuluol

Llythrennedd teulu a rhifedd teulu

- Caiff ei ariannu gan GCAH, yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS) ac arian ELWa ar gyfer oedolion sy'n dysgu.
- Caiff ei gyflwyno ym mhob AALl, ac mae bron pob un yn ei gyflwyno mewn partneriaeth â'u darparwr AB lleol.
- Mae'n cynnwys oedolion neu gynhalwyr a phlant sy'n cael sesiwn ar wahân unwaith yr wythnos gydag arbenigwyr addysg gynradd ac addysg i oedolion, ac yna dônt ynghyd ar gyfer trydydd sesiwn ar y cyd unwaith yr wythnos. Mae staff cynradd a staff addysgu oedolion yn cyflwyno'r sesiwn ar y cyd gyda'i gilydd.
- Mae mwy o oriau ar gyfer cyrsiau llythrennedd nag sydd ar gyfer cyrsiau rhifedd – mae'r ffocws ar godi safonau llythrennedd a rhifedd i blant ac oedolion fel ei gilydd. Caiff y plant eu hasesu ar y dechrau a'r diwedd. Caiff yr oedolion eu hasesu ar y dechrau ac maent yn gallu cael eu hachredu mewn modd addas.
- Caiff ei gyflwyno'n bennaf yng Nghyfnod Allweddol 1, ond gall gynnwys disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Mae wedi bod yn weithredol yn y rhan fwyaf o AALlau ers o leiaf 3 blynedd.

Cefnogi oedolion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol (SIY) iddynt

- Caiff ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o ddisgyblion ag anghenion SIY (ddim yn berthnasol ym mhob rhan o Gymru).
- Mae'r ffocws ar helpu plant gyda'u darllen a mynd â llyfrau adref i'w darllen gyda'u hoedolion neu eu cynhalwyr.

Sachau storïau

- Cânt eu cyflwyno'n bennaf mewn ysgolion cynradd gyda chefnogaeth tîm ymgynghorol yr AALl, ond gall darparwyr eraill gymryd rhan.
- Maent yn cynnwys gwahodd oedolion a chynhalwyr i'r ysgol i esbonio sut caiff sachau storïau eu defnyddio, ac i ddangos enghreifftiau er mwyn iddynt wneud sachau storïau i'w plant ac i'w rhannu yn yr ysgol.
- Bydd pob plentyn yn mynd â sach storïau wahanol adref bob wythnos.
- Gall ysgolion gael swm o arian 'cychwyn' (gan GCAH) i brynu adnoddau.

Rhaglenni rhwng cenedlaethau (yn y gymuned)

- Yn aml yn cynnwys gweithgareddau ymarferol a chreadigol fel cynnal a chadw beiciau modur, crochenwaith a phrosiectau hanes lleol.
- Dysgu ag iddo sail TG fel datblygu gwefan gymunedol, cynhyrchu posteri a gwella medrau TG yn gyffredinol.
- Yn digwydd fel arfer y tu allan i oriau ysgol, a gall gynnwys plant o wahanol oedran a phobl ifanc yn yr un grŵp.

Datblygu llythrennedd drwy TGCh a chyrsiau TG i oedolion

- Mae'r math hwn o gwrs ar gael ar amryw ffurf.
- Bydd rhai darparwyr AB yn cynnal cwrs TG sylfaenol i oedolion neu gynhalwyr sydd eisoes wedi mynychu cyrsiau llythrennedd a/neu rifedd teulu – ar dir yr ysgol y gwneir hyn a'r nod yw helpu oedolion i symud ymlaen i ddysgu pellach.
- Bydd rhaglenni dysgu teuluol eraill yn treulio rhan o sesiwn bob wythnos yn dangos i oedolion sut i ddefnyddio cyfrifiaduron mewn ysgol a'r hyn y gallant ei wneud gyda phlant gartref, yna sut gall oedolion a phlant weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu dogfennau ac ati.
- Bydd rhai AALlau a/neu ddarparwyr AB yn cynnal cyrsiau ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 ac oedolion, lle byddant yn treulio hanner sesiwn gyda'i gilydd ar weithgareddau llythrennedd/rhifedd CA2, ac yna'n ymrannu ar gyfer yr ail hanner pan fydd oedolion yn dysgu TG sylfaenol tra bydd disgyblion (ynghyd ag arbenigwr cynradd) yn canolbwyntio ar waith llythrennedd neu rifedd. Darparwyr AB sy'n ymrestru'r oedolion, gan gyrchu arian ELWa.

Clybiau darllen ar ôl ysgol

- Gellir targedu'r rhain at blant a fyddai'n elwa o help ychwanegol, ond gellir eu defnyddio'n fwy cyffredinol mewn ysgol.
- Bydd oedolion a phlant yn darllen gyda'i gilydd.
- Bydd oedolion yn helpu plant i ddethol llyfrau o'r llyfrgell.
- Gellir darparu sachau storïau hefyd i'w defnyddio gartref.

SHARE

- Mae'r rhaglen yn cynnwys oedolion a phlant yn gweithio ar dasgau gartref ond ni osodir y tasgau'n waith cartref.
- Mae'n cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Mae oedolion a phlant yn cytuno ar gytundeb SHARE sydd ar wahân i gytundeb gwaith cartref – mae'r ffocws ar ymwybyddiaeth oedolion, nid ar waith cartref ynddo'i hun.
- Mae'n ymwneud â sefydlu dulliau o weithio i feithrin gwaith hunan-astudio ac agweddau cadarnhaol at waith cartref, er mwyn helpu, er enghraifft, gyda throsglwyddo i'r ysgol uwchradd.
- Mae achrediadau ar gael i oedolion sy'n defnyddio unedau Rhwydwaith y Coleg Agored (OCN) ar lefel 1 i 3. Fel arfer bydd oedolion yn cael 2 gredyd tra byddant yn dilyn y rhaglen.

Polisi gwaith cartref

- Mae oedolion yn 'ymrwymo' i'r polisi fel rhan o'r cytundeb rhwng y cartref a'r ysgol.
- Mae'n berthnasol i bob oedran.
- Rhoddir manylion y polisi i oedolion ar ffurf llyfryn.
- Fel arfer mae'n cynnwys tasgau wythnosol, ymweliadau â'r llyfrgell a mynd â llyfr adref bob wythnos.

Mae yna hefyd raglenni neu weithgareddau ar gyfer oedolion a chynhalwyr. Er enghraifft:

Cadw i fyny â'r plant

- Rhaglen 12 awr a gaiff ei hariannu gan yr ASS a'i rheoli gan yr AALl.
- Gall fod ar gyfer rhieni plant yn yr ysgol feithrin, yr ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd (blynyddoedd 7/8 yn yr ysgol uwchradd).
- Y prif nodau yw gwella gwybodaeth oedolion o sut yr addysgir llythrennedd a rhifedd i'w plant, ac i gynyddu eu hyder eu hunain wrth gefnogi eu plant.
- Gall AALlau ddewis ariannu sesiynau ychwanegol, er enghraifft, i ystyried sut caiff gwyddoniaeth ei haddysgu yn yr ysgol.

Sesiynau Unigol yn y Tasgau Asesu Safonol (TASau)

- Caiff y rhain eu cyflwyno gan rai ysgolion, ond nid ydynt o reidrwydd yn safonol ar draws AALl.
- Bwriad sesiynau TASau yw cyflwyno i rieni gynnwys a phwrpas TASau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) ac egluro'r dirgelwch sy'n bodoli amdanynt.